# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir

# 16 Tachwedd 2020

## SL(5)645 – Rheoliadau Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2020

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau drafft yn ategu adran 60 Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir (ar wahân i ysgolion arbennig) a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru ddynodi person (neu bersonau) yn gydlynydd anghenion dysgu ychwanegol, i gydlynu darpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer disgyblion a myfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r Rheoliadau drafft yn nodi'r cymwysterau neu'r profiad y mae'n rhaid i gydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol eu cael ac yn rhoi swyddogaethau i gydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol mewn perthynas â darparu ar gyfer disgyblion neu fyfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
**Fe'u gwnaed ar:**
**Fe'u gosodwyd ar:** 03 Tachwedd 2020
**Yn dod i rym ar:** 4 Ionawr 2021

## SL(5)646 – Rheoliadau Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (Diwygio Atodlen 1) 2020

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 1 i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, sy'n nodi'r diffiniadau cyffredinol o dermau a ddefnyddir yn Neddfau Senedd Cymru ac mewn is-offerynnau Cymreig.

Mae'r Rheoliadau yn mewnosod darpariaethau yn Atodlen 1 ynghylch ystyr yr ymadroddion a ganlyn—

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol;

Ymddiriedolaeth Genedlaethol;

Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus:

Cod Dedfrydu.

Maent hefyd yn diwygio'r diffiniad o'r "graddfa safonol" o ddirwyon am droseddau diannod o ganlyniad i'r Cod Dedfrydu (yr ailddatganiad o'r ddeddfwriaeth ddedfrydu a nodir yn Neddf Dedfrydu 2020).

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019
**Fe'u gwnaed ar:**
**Fe'u gosodwyd ar:** 03 Tachwedd 2020
**Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)**